# Sut i ysgrifennu holiadur

Mae holiaduron yn bethau defnyddiol dros ben. Hynny yw, os wyt ti eisiau gwybod beth yw barn pobl am rywbeth. Er, os nad wyt ti, maen nhw hefyd yn eitha defnyddiol i hel pryfaid o 'na.

Os wyt ti'n mynd i lunio holiadur, dyma rai pethau i'w cadw mewn cof.

Yn gyntaf, beth yw pwrpas yr holiadur?

Cofia ofyn i ti dy hun, "Pa wybodaeth sydd ei hangen arnaf i?" a "Sut fydd y wybodaeth yn fy helpu i?"

Nesaf, wrth lunio holiadur, mae angen holi cwestiynau addas bob tro.

Dylet ti ofyn cwestiynau caeedig os wyt ti eisiau atebion byr caeedig fel ie, nage, gwir neu gau neu ateb syml fel rhif.

Bydd cwestiwn caeedig fel, "Ydych chi'n credu mewn ysbrydion?" neu "Ar raddfa o 1 - 5, pa mor ddifrifol yw'r sefyllfa baw ci yn yr ardal?" yn cynhyrchu nifer fawr o atebion sy'n hawdd eu dadansoddi, er enghraifft, "Mae 26% o'r bobl a holwyd yn credu mewn ysbrydion."

Ond ar gyfer atebion gyda mwy o ddyfnder, mae cwestiynau agored yn well. Er enghraifft: "Beth yw eich barn chi am y cerflun newydd yn y dref?"

Mae pobl yn gallu ymateb i gwestiynau agored sut bynnag maen nhw eisiau.

Beth bynnag yw'r cwestiwn, gwna'n siŵr ei fod wedi ei eirio'n dda a'i fod yn gwneud synnwyr. Gwna'n fawr o'r ffaith fod pobl wedi rhoi o'u hamser.

Ond paid â gofyn cwestiynau arweiniol. Os wyt ti'n holi am berthynas beicwyr a modurwyr yn yr ardal, ac yn gofyn, "Ydych chi'n cytuno bod beicwyr yn hollol wallgof ac yn achosi llawer o ddamweiniau?" - mae'n debygol o arwain y person i ymateb mewn ffordd arbennig.

Mae cwestiynau arweiniol yn ffordd wael o gyfathrebu, ac yn difetha dy waith ymchwil, am nad yw pobl yn cael cyfle i ddweud beth maen nhw'n ei feddwl go iawn.

Mae cwestiynau niwtral yn well fel, "Beth yw'r prif broblemau rhwng beicwyr a modurwyr ar y ffyrdd?" Maen nhw'n rhoi cyfle i bobl leisio eu barn bersonol.

Weithiau mae cynnig pethau am ddim yn ffordd dda o berswadio pobl i gymryd rhan mewn arolwg. Ond, os wyt ti'n eu denu nhw am y rhesymau anghywir, pa mor ddibynadwy fydd dy ddata mewn gwirionedd?


© Hawlfraint BBC

Hefyd, dylai cwestiynau fod yn berthnasol ar gyfer y bobl rwyt ti’n eu holi. Does dim pwynt gofyn i fabis beth fyddai’n eu perswadio nhw i wneud mwy o ymarfer corff.

Cyn mentro i’r stryd fawr neu fynd ar y we, cofia brofi'r holiadur ar dy ffrindiau. Os oes angen newid unrhyw beth, mae’n well gwybod o flaen llaw.

A dyna ni. Ond, alla’ i ofyn yn sydyn, "Ar raddfa o 1 - 3, pa mor ddefnyddiol oedd y fideo 'ma?


© Hawlfraint BBC